

	Targed/target	Yr hyn yr wyf wedi'i wneud yn yr aseiniad hwn What I have done in this assignment...
Targed/Target 1	Darllen yn ehangach er mwyn arddangos dealltwriaeth o'r pwnc o dan sylw.	Rwyf wedi ceisio sicrhau fy mod i wedi darllen yn ehangach er mwyn dangos dealltwriaeth gwell o'r aseiniad hwn.
Targed/Target 2	Cymhwyso'r llenyddiaeth er mwyn cefnogi'r pwyntiau a weir.	Wrth gwblhau'r aseiniad hwn rwyf wedi ceisio cymhwyso'r llenyddiaeth rwyf wedi defnyddio er mwyn cefnogi a datblygu fy mhwyntiau ymhellach.

Sut mae ysgol yn datblygu un agwedd ar ei Chynllun

Datblygu Ysgol: adroddiad sy'n adfyfrio'n feirniadol ar y camau gweithredu, yr effaith a'r sylfaen dystiolaeth.

Rhagarweiniad

Y ffocws ar gyfer yr aseiniad hwn yw adfyfrio'n feirniadol sut mae ysgol yn datblygu un agwedd ar ei Chynllun Datblygu Ysgol trwy ganolbwyntio ar y camau gweithredu, yr effaith a'r dystiolaeth. Yr elfen o'r Cynllun Datblygu Ysgol canolbwyntir arni yn yr aseiniad hwn yw'r flaenoriaeth 'Paratoi ar gyfer Cwricwlwm i Gymru' o dan y maes allweddol Addysgu a Phrofiadau dysgu.

Mae'r ysgol dan sylw yn ysgol benodedig Gymraeg ers Medi 2016 ac fel y sonnir ym mhrospectws yr ysgol (2019) un o nodau'r ysgol yw ceisio paratoi pob disgybl i allu byw fel aelod cyfrifol a gwerthfawr o gymdeithas. Gan ei bod hi'n ysgol gymunedol cynhelir yr ysgol gan yr Awdurdod Lleol. Disgyblion o 11 i 19 oed mynychir yr ysgol, gyda thua 890 o blant yn mynychu ar hyn o bryd gydag 176 o'r rhain yn y chweched dosbarth (My Local School, 2019). Fel arfer mae cyfartaledd lefelau presenoldeb yr ysgol yn uchel yn flynyddol ac roedd yn 95.1% yn 2019 (My Local School, 2019). Daw disgyblion yr ysgol o ardal sydd ddim ffyniannus nac o dan anfantais economaidd ac o ganlyniad i hyn fel y sonnir ar wefan My Local School (2019) dim ond 4.1% o ddisgyblion yr ysgol sydd yn gymwys am brydau bwyd

am ddim. O'i gymharu â chyfartaledd cenedlaethol 2019 sef 16.5% mae cyfartaledd yr ysgol yn isel ac wrth ystyried cyfartaledd yr awdurdod lleol a oedd yn 15% (My Local School, 2019). Fel y nodir yn adroddiad Estyn 2015 mae gan yr ysgol ddisgyblion o alluoedd amrywiol gydag 14.7% ar restr anghenion dysgu ychwanegol ac mae gan 1.6% o ddisgyblion yr ysgol ddatganiad anghenion (Estyn, 2015).

Adolygiad Llenyddiaeth

Fel sonnir yr Education Authority Northern Ireland (2020) mae'r broses o ddatblygu ysgol yn gynllun strategol sydd yn cael ei bwysleisio er mwyn creu blaenoriaethau a fydd yn gwella a datblygu'r ysgol fel sefydliad. Ceir amryw o benderfyniadau sydd angen eu gwneud er mwyn penodi'r blaenoriaethau yma i'w datblygu. Yn debyg i hyn dywed Llywodraeth Cymru (2014) mai pwrpas cynlluniau datblygu ysgol yw gwella canlyniadau dysgwyr ymhob agwedd gan hefyd drafod datblygiadau eu staff yn yr un modd.

Sonnir Mardi Krenek (2018) pam fod cynllunio strategol mor allweddol ym myd addysg ac yn benodol am dri rheswm. Sonir am sut mae'n darparu ffocws i ysgolion wrth iddynt bennu a chanolbwyntio ar flaenoriaethau er mwyn diwygio agweddau o'r ysgol (Mardi Krenek, 2018). Cytunir Davies ac Ellison (2003) gyda hyn gan ddweud er mwyn i ysgolion lwyddo a datblygu mae'n rhaid iddynt fod yn strategol a meddwl am gynaliadwyedd a llwyddir gwneud gyda chynllun datblygu.

Mae Hanover Research (2014) yn sôn am yr angen i gynnwys rhanddeiliaid yn y penderfyniadau er mwyn i'r gwelliannau sydd angen cael eu hadnabod yn wrthrychol a heb unrhyw farn bersonol yn amharu arnynt. O ganlyniad i hyn dywed fe ellir gweld gwelliannau llawer mwy trawiadol ac effeithiol (Hanover Research, 2014). Er hyn, dadleuir Davies (2006) mai'r ffyrdd orau o gynllunio'n strategol yw canolbwyntio ar weledigaeth a chredoau yn gyntaf er mwyn sicrhau strwythur pendant a chlir i'r cynllunio. O ganlyniad y bydd hyn yn arwain at ganlyniadau mwy effeithiol (Davies, 2006).

Sonnir Schildkamp (2019) am bwysigrwydd cynnwys data wrth gynllunio'n strategol. Dywed y dylai nodau cael eu gosod ac yna ymchwil a data pellach yn cael ei gasglu yn sgil hyn wedi'u selio ar y nodau a thargedau hynny (Schildkamp, 2019). Yn wahanol i hyn dywed model cynllunio strategol yr ECRA Group (2015) bod rhaid ymchwilio a thrafod canfyddiadau fel sail yn gyntaf cyn symud ymlaen i osod nodau strategol wedi'u hechdynnu o ganlyniad i'r ymchwil a chanfyddiadau a wnaed ar y dechrau.

Caiff ei bwysleisio gan Davies ac Ellison (2003) am bwysigrwydd cynllunio'n hirdymor fel caiff ei wneud wrth gynllunio'n strategol er mwyn gallu ystyried y camau gweithredu a'r effeithiau a welir yn sgil hyn. Crybwyllir hefyd sut y mae angen cynllunio'n realistig o ran y nifer o flaenoriaethau sydd angen eu gweithredu oherwydd eu bod, gan amlaf, yn dargedau mwy eang sydd yn cymryd amser ac amryw o gamau gweithredu (Davies ac Ellison, 2003). Er hyn, nodir Llywodraeth Cymru (2014) bod y cynlluniau datblygu mwyaf effeithiol yn canolbwyntio ar gymysgedd o flaenoriaethau hir a byr dymor er mwyn codi safonau a datblygu canlyniadau'r holl ddisgyblion.

Wrth i ysgolion baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru Llywodraeth Cymru (2020), amlinellodd yr Athro Graham Donaldson (2015) yn y cychwyn am yr angen i sicrhau bod disgyblion yn gallu defnyddio'u gwybodaeth ar draws y pynciau er mwyn gallu dod ynghyd sgiliau, profiadau a gwybodaeth wahanol. Dangosir hyn bwysigrwydd y flaenoriaeth hon ar gyfer Cynllun datblygu'r ysgol er mwyn sicrhau bod y gwelliannau priodol yn cael eu gwneud yn barod ar ei gyfer.

Sonnir Llywodraeth Cymru (2017) am yr angen i ddatblygu ysgolion Cymru fel sefydliadau sy'n datblygu er mwyn sicrhau'r addysg gorau posib i ddisgyblion. Dangosir hyn yr angen ar gyfer ffocysu ar nod fel hwn er mwyn sicrhau bod yr ysgol yn barod ar gyfer y newidiadau ac yn ceisio eu hymgorffori yn barod i'r meysydd dysgu a phrofiad yn yr ysgol.

Dywed mewn adroddiad gan yr OECD (2017) am yr angen am ddulliau a mathau gwahanol o addysgu er mwyn diwygio addysg yng Nghymru. O ganlyniad i hyn gall ysgolion Cymru sicrhau bod y disgyblion yn cael y gwerth gorau posib o'u haddysg ymhob agwedd. Sonir hefyd am ddatblygu addysg yng Nghymru i fod â tharged hirdymor yn hytrach na byrdymor sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau wrth adael yr ysgol (OECD, 2017). Caiff hyn ei gwmpasu gan y pedwar diben sydd yn ffocysu ar ddatblygu disgyblion i fod yn bobol werthfawr i gymdeithas ac sydd yn unigolion hyderus ac iach yn hytrach na disgyblion sy'n cael eu mesur gan ganlyniadau arholiadau yn unig (Donaldson, 2015). Pwysleisir llais y disgybl hefyd yng nghanllawiau Cwricwlwm i Gymru Llywodraeth Cymru (2020) gyda'r angen i sicrhau bod disgyblion yn cael mwy o fewnbwn i'r prosiectau a chynlluniau o fewn ysgol. Cefnogir Effaith Leonardo hyn wrth iddo annog y disgyblion i fod yn annibynnol a chreadigol wrth fynd ati i reoli eu dysgu eu hunain mewn agweddau (Hickey a Robson, 2013). Cyfrannir hyn eto at y rheswm dilys dros y flaenoriaeth hon er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn gallu derbyn yr addysg gorau posib a'r ysgol yn datblygu fel sefydliad.

Datblygu pwynt gweithredu

Caiff cynllun datblygu'r ysgol hwn ei selio ar un ar ddeg blaenoriaeth benodol wedi'u rhannu i bum maes allweddol. Y pum maes allweddol yma yw pum maes arolygu Estyn, y rhai maent yn defnyddio wrth gyflawni arolygiadau mewn ysgolion (Estyn, 2016). Darparir hyn sylfaen arbennig wrth i'r ysgol ganolbwyntio ar yr hyn sydd angen arnynt er mwyn datblygu.

Roedd yr ysgol hon yn gweithredu ar gynllun datblygu blynyddol lle roeddent yn mesur yr effaith ar ddiwedd y flwyddyn dan sylw. Dywed Davies ac Ellison (2003) bod cynlluniau o dair i bum mlynedd yn cael eu hystyried y mwyaf effeithiol er mwyn sicrhau bod camau gweithredu'r blaenoriaethau'n cael eu cyrraedd gan ei bod hi'n broses hir er mwyn llwyddo gyda phob un ohonynt (Davies ac Ellison, 2003). Felly, efallai byddai modd gweld datblygiad bellach o ran y blaenoriaethau pe bai'r ysgol yn dilyn cynllun tebycach i hyn gyda thargedau mwy hirdymor yn hytrach nag yn flynyddol.

Proses yr ysgol dan sylw oedd penodi'r blaenoriaethau ar gyfer y cynllun datblygu trwy, yn gyntaf, ymchwilio'n lleol ac yna'n genedlaethol er mwyn darganfod unrhyw faterion a oedd wedi codi. Wrth wneud hyn roedd yn rhoi darlun mwy cyflawn iddynt o'r hyn roedd angen iddynt ganolbwyntio arni o fewn yr ysgol. Sonnir Llywodraeth Cymru (2014) am ddilyn pedwar cam wrth ystyried cynllun datblygu'r ysgol sef hunan arfarnu, cynllunio'n strategol, gwneud gwelliannau ac yna adolygu'r effaith. Roedd yr ysgol dan sylw wedi defnyddio dull tebyg iawn i hyn wrth iddynt gyfuno'r hunan arfarniad a'r cynllun datblygu ysgol i osod eu targedau ar gyfer y flwyddyn. Cefnogir Ofsted (2006) hyn gan bwysleisio pa mor werthfawr yw hunan arfarnu er mwyn dangos gwelliannau wrth gynllunio.

Fel rhan o'r broses roeddent hefyd yn trafod gydag ysgolion y clwstwr er mwyn gweld a oedd unrhyw faterion cyffredin a fyddai'n bosib iddynt benodi er mwyn gweithio ar y cyd i'w datblygu dros y flwyddyn. Amlygir hyn bwysigrwydd cynnwys y gymuned a rhieni mewn prosiectau. Dywed Llywodraeth Cymru (2016) am bwysigrwydd cynnwys y gymuned ehangach mewn penderfyniadau gan ei fod yn gallu cryfhau'r ysgol drwy gyfrannu adnoddau a chreu perthnasau cryfach gyda busnesau a gweithgareddau a fydd yn cynorthwyo datblygiad eu disgyblion. Fodd bynnag, dywed ymchwil gan Alternatives in Education (2017) mai rhieni yw'r prif ffactor er mwyn datblygu fel ysgol wrth i ymglymiad rhieni cael effaith gadarnhaol ar ddysgu disgyblion a bywyd yr ysgol hefyd. Felly, efallai byddai modd i'r ysgol gynnwys y rheini yn fwy wrth geisio penodi blaenoriaethau er mwyn gallu cael yr effaith gorau posib o'r cynllun.

Roeddent hefyd yn rhoi sylw i'r camau gweithredu wrth ystyried sut i wella gan hefyd gynnwys ystyriaeth am ba unigolion fyddai'n cyfrannu'n bennaf at y blaenoriaethau unigol. Ystyriwyd y cyllid a oedd yn cyd-fynd â'r broses o wella hefyd. Mae hyn yn debyg iawn i'r hyn a sonnir gan Lywodraeth Cymru (2014) wrth iddynt edrych ar gylchred gyfan wrth

weithredu. Roedd data hefyd yn cyfrannu at benderfyniadau'r ysgol wrth iddynt ddefnyddio tystiolaeth a chanlyniadau wrth benderfynu ar y blaenoriaethau gan gynnwys codi safonau mewn pynciau a meysydd penodol a gwella sgiliau llythrennedd y disgyblion. Cefnogir hyn awgrymiadau Schildkamp (2019) am bwysigrwydd defnyddio data wrth gynllunio ond er hyn fe allai'r ysgol fod wedi defnyddio mwy o ddata wrth benodi rhai o'r blaenoriaethau.

Wrth ystyried yr agwedd rwyf wedi penderfynu canolbwyntio arno, defnyddiodd yr ysgol argymhellion cenedlaethol wrth weithredu i ddatblygu'r ffocws hwn. Canmolwyd darpariaeth yr ysgol mewn ymweliad ymgysylltiol Estyn yn 2019 ac o ganlyniad hyn roeddent am adeiladu ar y ddarpariaeth hon gan dreialu cyfres o raglenni a gweithredoedd newydd yn barod ar gyfer y Cwricwlwm newydd. Daw'r rhaglen ragoriaeth addysg ariannol o dan hyn sef argymhelliad gan Estyn (2017) am addysg ariannol mewn ysgolion. Felly, yn sgil hyn aeth yr ysgol ati i dreialu cynllun addysg ariannol fel rhan o'i chymau gweithredu er mwyn sicrhau bod eu disgyblion mewn sefyllfa i ddelio â chymhlethdodau wrth wneud penderfyniadau ariannol.

Adnabuwyd angen hefyd gan yr ysgol i wella'r cydweithio rhwng y cynradd a'r uwchradd er mwyn sicrhau pontio mwy effeithiol a pherthynas gwell o ran yr addysgu a'r continwum. Pwysleisiwyd hyn yng nghanllawiau Cwricwlwm i Gymru (Llywodraeth Cymru, 2020) ac felly dengys hyn eto bod yr ysgol wedi darganfod y gwelliannau oedd angen yn sgil data a pholisïau cenedlaethol. Er hyn, efallai byddai modd i'r ysgol benodi mwy o flaenoriaethau lle ellir gweithio ar y cyd er mwyn datblygu'r berthynas ymhellach.

Adfyfyrrio a gwerthuso

Fel rhan o geisio gweithredu ar y targedau a osodwyd ganddynt, gwelwyd yr ysgol yn mynd ati i drefnu cyfarfodydd meysydd dysgu a phrofiad, cynhadledd uwchradd a chynradd ar y cwricwlwm newydd a diwrnod hyfforddiant mewn swydd ar y meysydd dysgu a phrofiad hefyd er mwyn ceisio sicrhau bod y cydweithio rhwng ysgolion y clwstwr yn cael ei ddatblygu ac o ganlyniad yn cael effaith gadarnhaol ar y dysgu a'r addysgu. Gweithiodd hyn yn dda ond efallai nad yw diwrnod yn ddigonol i ddatblygu pob un ac felly byddai cynnal mwy o ddiwrnodau lle'n bosib yn cael effaith bellach ar y canlyniadau.

Prosiect mawr gyda'r ysgol hefyd oedd ei sioe ysgol felly'r syniad cafwyd oedd datblygu cynllun trawsgwricwlaidd i'r ysgol a'u hysgolion clwstwr yn seiliedig ar y sioe. Rhoddodd hyn y cyfle i'r adrannau o fewn yr ysgol baratoi gwaith i'r disgyblion gydag elfennau trawsgwricwlaidd er mwyn cysylltu gweithgareddau yn seiliedig ar y sioe. Roedd hyn yn effeithiol iawn o fewn yr ysgol wrth weld yr holl feysydd dysgu a phrofiad yn cysylltu. Er hyn,

cyfres o wersi yn benodol i dymor yr Hydref oedd y rhain oherwydd y sioe, felly petai'r ysgol am barhau i ddatblygu'r elfen hwn, efallai byddai modd iddynt ddewis thema debyg ar gyfer pob tymor er mwyn gallu dilyn yr un fath o batrwm. Ymddangosodd y cynllun sioe yn hynod effeithiol gyda'r ysgolion clwstwr hefyd wrth iddo ddarparu cyfle i'r ysgol dan sylw weithio'n agos iawn gyda'r ysgolion cynradd gan ddarparu pecynnau trawsgwricwlaidd ar y sioe iddynt er mwyn eu cwblhau gyda'r disgyblion cyn iddo ddod i uchafbwynt i'r disgyblion cynradd gydag ymweliad i wyllo'r sioe. Yn yr un modd Sioe unwaith bob tair blynedd sydd gan yr ysgol fel arfer ac felly er mwyn sicrhau bod y cam gweithredu hwn yn parhau i gael ei ddatblygu efallai byddai modd trefnu gweithgaredd tebyg yn dymhorol er mwyn sicrhau bod y berthynas yn parhau i ddatblygu trwy gydol y flwyddyn gan wneud pontio hefyd yn haws i ddisgyblion y cynradd.

Yr elfen fwyaf effeithiol tystiwyd yn ystod y cyfnod oedd treialu'r cynllun newydd Addysg Ariannol i flwyddyn saith yn sgil argymhelliad Estyn (2017). Roedd y disgyblion ym mlwyddyn saith yn derbyn un wers y pythefnos a oedd yn eu haddysgu nhw am amrywiaeth o faterion ariannol, o fudd-daliadau i gynnyrch masnach deg a slipiau cyflog i enwi ond ychydig. Er i hyn ymddangos yn boblogaidd ac yn fuddiol iawn ym marn aelodau staff a'r disgyblion a oedd yn rhan o'r cynllun, ni welwyd effaith llawn y cynllun oherwydd dim ond disgyblion blwyddyn saith oedd yn derbyn y gwersi yma. Wrth adfyfrio efallai roedd rhai o'r materion ariannol yn rhy gymhleth i ddisgyblion o'r oed yma ac ni fyddent yn wynebu pethau fel slipiau cyflog nes am rai blynyddoedd. Felly, pe bai'r ysgol yn treialu'r cynllun gyda blynyddoedd hŷn er enghraifft blwyddyn naw efallai byddai mwy o fuddion i'w gweld wrth iddynt fod yn ymarferol wrth ymdrin â'r fath penderfyniadau. Yn ogystal fe allai'r ysgol addysgu'r rhaglen i holl flynyddoedd cyfnod allweddol tri gan adeiladu ar y cynnwys yn flynyddol er mwyn i'r disgyblion gael yr allbwn gorau yn sgil y rhaglen.

Yn yr un modd gyda'r holl gamau gweithredu yma, fel y soniwyd gan Davies ac Ellison (2003), gwelir yr effaith gorau gyda phrosiectau hirdymor ac felly pe bai'r ysgol yn parhau gyda'r gweithredoedd yma am dair blynedd neu fwy byddai modd gweld yr effaith yn gliriach. Byddai hyn hefyd yn sicrhau bo'r ysgol yn parhau i baratoi yn flynyddol ar gyfer Cwricwlwm i Gymru ar sail y canllawiau (2020). Rhaid nodi hefyd, mai dim ond cyfnodau o'r flwyddyn oedd wedi pasio yn ystod y profiad addysgu proffesiynol gyntaf ac felly byddai mwy o effaith i'w weld bellach ar sail y blaenoriaethau yma.

Casgliad

Felly, wrth grynhoi'r aseiniad mae'n amlwg bod cynllunio'n strategol a chynlluniau datblygu yn hanfodol bwysig o fewn ysgolion er mwyn iddynt weld gwelliannau a'r ysgol yn datblygu fel y soniwyd gan Krenek (2018) a Hanover Research (2014). Er hyn, roedd yn ddiddorol

dysgu am wahanol agweddau ynghylch hydoedd y cynlluniau datblygu wrth i Davies ac Ellison (2003) son am effeithiolrwydd cynlluniau hirach megis tair i bum mlynedd a oedd yn groes i gynllun datblygu'r ysgol dan sylw.

Wrth ystyried yr hyn a ddysgwyd a'u heffaith, pan fyddaf yn gweithredu yn y dyfodol byddaf yn bendant yn parhau i sicrhau fy mod i'n paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd gan wneud yn siŵr bod y llenyddiaeth a darganfuwyd yma'n llywio fy mhenderfyniadau wrth wneud hyn. Yn ogystal, mae'n amlwg bod cynnwys y gymuned a rheini mewn gweithgareddau a phenderfyniadau yn gallu gweithredu fel dull effeithiol iawn wrth geisio datblygu fel ysgol fel y sonnir Alternatives in Education (2017) a chyflwyno cynlluniau newydd hefyd ac felly byddaf yn sicr yn meddu ar y wybodaeth yma wrth weithredu yn y dyfodol. Mae'r ymchwil hefyd wedi dangos yn glir bwysigrwydd data wrth gynllunio'n strategol a hefyd yn gyffredinol wrth addysgu. Byddaf yn sicr yn defnyddio'r wybodaeth yma wrth gynllunio yn y dyfodol a hefyd bod yn barod i dreialu unrhyw gynlluniau neu brosiectau newydd ar sail argymhellion gan sefydliadau allanol megis Estyn.

Rhestr Gyfeirnod

Alternatives in Education (2017) *Working for positive change: Parent Voice*. Ar gael yn:

<https://alternativesineducation.org/#keyquestions> (Darllenwyd: 10 Ebrill 2020)

Davies, B., 2006. *Leading the Strategically Focused School: Success and Sustainability*. SAGE Publications Ltd.

Davies, B. ac Ellison, L., 2003. *The New Strategic Direction and Development of the School: Key Frameworks for School Improvement Planning*. 2nd ed., London: RoutledgeFalmer.

Donaldson, G., (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*. Ar gael yn:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf>
(Darllenwyd: 7 Hydref 2019)

ECRA Group (2015) *Creating the future: Strategic Planning for Schools: An ECRA White Paper*. Ar gael yn: https://ecragroup.com/wp-content/uploads/dlm_uploads/2016/07/Strategic-Planning-White-Paper.pdf (Darllenwyd: 1 Ebrill 2020)

Education Authority Northern Ireland (2020) *School Development Planning*. Ar gael yn: <https://www.eani.org.uk/school-management/school-governors/school-improvement/school-development-planning> (Darllenwyd: 28 Mawrth 2020)

Estyn (2016) *Esbonio Arolygu*. Ar gael yn: <https://www.estyn.llyw.cymru/arolygu/esbonio-arolygu> (Darllenwyd: 6 Ebrill 2020)

Estyn (2015) *Inspection Report*. Ar gael yn:

<https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/2015-16%20eng.pdf> (Darllenwyd: 8 Mawrth 2020)

Estyn (2017) *Rheoli Arian: Addysg ariannol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru*. Ar gael yn:

<https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Managing%20money%20cy.pdf> (Darllenwyd: 8 Ebrill 2020)

Hanover Research (2014) *Best Practices for School Development Planning*. Ar gael yn:

https://padlet-uploads.storage.googleapis.com/82566160/6f971d6a28463777a22a65717dd55dd6/Best_Practices_for_School_Improvement_Planning.pdf (Darllenwyd: 31 Mawrth 2020)

Hickey, I. a Robson, D., 2013. *The Leonardo Effect: Motivating Children To Achieve Through Interdisciplinary Learning*. Routledge.

Krenek, M., (2018) '3 Reasons why you need strategic planning in education', The APQC Blog [blog]. 19 Mawrth. Ar gael yn: <https://www.apqc.org/blog/3-reasons-why-you-need-strategic-planning-education> (Darllenwyd: 25 Mawrth 2020)

Llywodraeth Cymru (2020) *Canllawiau Cwricwlwm i Gymru*. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/storage/b0e91f7c-0050-47b6-9b23-0273d39df9f3/canllawiau-cwricwlwm-i-gymru-070220.pdf> (Darllenwyd: 7 Ebrill 2020)

Llywodraeth Cymru (2017) *Education in Wales: Our national mission*. Ar gael yn: https://padlet-uploads.storage.googleapis.com/82566160/456433674a415b722a6318755e1e0e22/education_in_wales_our_national_mission.pdf (Darllenwyd: 2 Ebrill 2020)

Llywodraeth Cymru (2014) *School Development Plans*. Ar gael yn: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/school-development-plans.pdf> (Darllenwyd: 31 Mawrth 2020)

Llywodraeth Cymru (2016) Theme 5: *Developing community partnerships and multi-agency working*. Ar gael yn: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-12/theme-5-developing-community-partnerships-and-multi-agency-working-resources-1-2.pdf> (Darllenwyd: 8 Ebrill 2020)

My Local School (2019) [REDACTED]. Ar gael yn: <http://mylocalschool.gov.wales/School/6694056?lang=en> (Darllenwyd: 25 Mawrth 2020)

OECD (2017) *The Welsh Education Reform Journey: A Rapid Policy Assessment*. Ar gael yn: <http://www.oecd.org/education/The-Welsh-Education-Reform-Journey.pdf> (Darllenwyd: 6 Ebrill 2020)

Ofsted (2006) *Improving performance through school self-evaluation and improvement planning*. Ar gael yn: <https://dera.ioe.ac.uk/5986/1/Improving%20performance%20through%20school%20self-evaluation%20and%20improvement%20planning%20%28PDF%20format%29.pdf> (Darllenwyd: 7 Ebrill 2020)

Schildkamp, K., 2019. Data-based decision-making for school improvement: Research insights and gaps. *Educational Research*, 61(3), tud 257-273.

Ysgol [REDACTED] (2019) *Prosbectws 2019-20*. Ar gael yn:

[https://www.\[REDACTED\].org/prosbectws-a-llawlyfrau-ysgol](https://www.[REDACTED].org/prosbectws-a-llawlyfrau-ysgol) (Darllenwyd: 10 Hydref 2019)